# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC)

# Cynnwys


Cymeradwyaeth: .......... 3
1. Cyflwyniad .......... 4
2. Blaenoriaethau a meysydd gwaith ar y cyd .......... 4
3. Croes-atgyfeirio pryderon .......... 4
4. Rhannu Gwybodaeth .......... 5
5. Ailddilysu meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia .......... 6
6. Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau .......... 7
7. Llywodraethu .......... 7
8. Cyfnod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'r broses o'i adolygu .......... 8
9. Atodiad A – Manylion Cyswllt a Chymeradwyaeth .......... 9
10. Atodiad B – Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rhannu Gwybodaeth 11
11. Atodiad C – Rolau a chyfrifoldebau .......... 13

**Cymeradwyaeth:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu** | Hydref 2024 |
| **Awduron** | AGIC: Nicola Bresner<br>Y Cyngor Meddygol Cyffredinol: Sarah McDermott |
| **Dyddiad cytuno** | Mawrth 2025 |
| **Cytunwyd arno'n ffurfiol gan:** | AGIC: Alun Jones<br>Y Cyngor Meddygol Cyffredinol: |
| **Dyddiad adolygu** | Mawrth 2028 |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) yw hwn. Mae rolau a chyfrifoldebau pob sefydliad wedi'u nodi yn Atodiad C.

1.2 Nod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw cefnogi'r gydberthynas waith rhwng AGIC a'r CMC a hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth a deallusrwydd am ddiogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru mewn ffordd effeithlon, briodol a diogel.

1.3 Mae'r gydberthynas waith rhwng AGIC a'r CMC ar ffurf trefniant lle mae'r partneriaid yn goruchwylio ac yn sicrhau ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

1.4 Mae'r cytundeb yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth y gall cyfathrebu'n effeithiol, mewn modd amserol, a rhannu gwybodaeth fod o fantais i bobl sy'n cael gwasanaethau gofal iechyd.

1.5 Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn newid nac yn effeithio ar ddyletswyddau presennol pob sefydliad nac unrhyw bolisïau na chytundebau eraill sydd ganddynt. Nid yw'n trosglwyddo nac yn rhannu unrhyw gyfrifoldebau cyfreithiol rhwng y sefydliadau oni bai y caniateir hynny yn gyfreithiol.

1.6 Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gyfreithiol gyfrwymol. Fodd bynnag, mae AGIC a'r CMC yn cytuno i gydymffurfio â'i egwyddorion, i roi ystyriaeth briodol i weithgareddau ei gilydd ac i gydweithio i gefnogi a hyrwyddo gwelliant mewn gwasanaethau gofal iechyd.

## 2. Blaenoriaethau a meysydd gwaith ar y cyd

2.1 Lle ceir cyfleoedd i weithio ar y cyd a chydweithredu, caiff sefydliad arweiniol ei nodi. Gall gweithio ar y cyd a chydweithredu gynnwys defnyddio gweithredoedd ei gilydd i gael sicrwydd ar fater.

## 3. Croes-atgyfeirio pryderon

3.1 Os bydd AGIC neu'r CMC yn nodi pryder sy'n cyd-fynd â chyfrifoldeb y sefydliad arall, bydd yn rhannu'r pryder a gwybodaeth berthnasol â'r person priodol o'r sefydliad arall yn ddi-oed. Er budd diogelwch cleifion a

chyfiawnder, ni fydd y sefydliad sy'n atgyfeirio yn aros i'w ymchwiliad ei hun ddod i ben cyn gwneud yr atgyfeiriad.

3.2 Yn benodol, bydd AGIC yn atgyfeirio'r canlynol at y CMC:

- Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol a nodwyd am feddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia a allai fwrw amheuon dros addasrwydd yr unigolyn hwnnw i ymarfer.
- Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol a nodwyd am sefydliad gofal iechyd neu ran o'r sefydliad hwnnw a allai fwrw amheuon dros ei addasrwydd fel amgylchedd dysgu i fyfyrwyr meddygol, meddygon, cymdeithion meddygol neu gymdeithion anaesthesia dan hyfforddiant.
- Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol a nodwyd am sefydliad gofal iechyd a allai fwrw amheuon dros gadernid ei system arfarnu a'i drefniadau llywodraethu clinigol.

3.3 Yn benodol, bydd y CMC yn atgyfeirio'r canlynol at AGIC:

- Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol am sefydliad gofal iechyd lle mae meddygon, cymdeithion meddygol neu gymdeithion anaesthesia yn ymarfer neu'n cael eu hyfforddi a allai fwrw amheuon dros ansawdd y gofal a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.
- Crynodeb dienw o ganlyniadau'r Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol a rhestr o'r safleoedd y dylid eu monitro'n fanylach. Y wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu ar ôl cynnal ymweliadau monitro manylach ar y cyd.

## 4. Rhannu Gwybodaeth

4.1 Bydd y gydberthynas waith rhwng AGIC a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) yn cael ei nodweddu gan gyswllt rheolaidd, a phroses agored a phriodol o rannu gwybodaeth o fewn paramedrau eu fframweithiau cyfreithiol unigol.

4.2 Gall rhannu gwybodaeth ac atgyfeiriadau ffurfio rhan o lwybrau sefydledig ar gyfer rhannu gwybodaeth, gan gynnwys trafodaethau mewn Uwchgynadleddau Gofal Iechyd a gynhelir ddwywaith y flwyddyn, y mae AGIC a'r CMC yn sefydliadau sy'n cymryd rhan ynddynt, ymhlith pethau eraill.

4.3 Bydd y CMC yn rhoi trefniadau ar waith i AGIC allu defnyddio ei ddangosfwrdd archwilio data, lle gall weld data ar ganlyniadau'r Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol ac offer data eraill.

4.4 Fel yr amlinellir yn Atodiad A, bydd y cysylltiadau allweddol ar gael i hwyluso'r broses o rannu deallusrwydd a gwybodaeth pan fo angen.

4.5 Bydd yr holl drefniadau ar gyfer cydweithio a rhannu gwybodaeth a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, ac unrhyw gytundebau ategol, yn ystyried ac yn cydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data 2021, Deddf Diogelu Data 2018, ac unrhyw ddeddfiadau perthnasol eraill, gofynion Cyfraith Gyffredinol ar gyfer cyfrinachedd, Rhan 1 Pennod 6 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 ac unrhyw godau ymarfer, fframweithiau neu bolisïau eraill gan AGIC a'r CMC sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol gyfrinachol.

4.6 Mae AGIC a'r CMC yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os bydd y naill sefydliad yn cael cais am wybodaeth a ddeilliodd o'r llall, bydd y sefydliad sy'n cael y cais yn ei drafod â'r llall cyn ymateb, ond gwneir y penderfyniad i ddatgelu'r cais yn ôl disgresiwn llwyr y sefydliad sy'n cael y cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

4.7 Mae Atodiad B yn cynnwys canllawiau AGIC ar rannu gwybodaeth bersonol a'r sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth.

## 5. Ailddilysu meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia

5.1 Mae'n bwysig bod pob meddyg, cydymaith meddygol a chydymaith anaesthesia sy'n ymarfer yn y DU yn dilyn y safonau proffesiynol a bennwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC), a'u bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf.

Rydym yn disgwyl i bob meddyg, cydymaith meddygol a chydymaith anaesthesia sy'n gweithio yn y DU gasglu adborth gan eu cleifion a manylion unrhyw ddigwyddiadau o bwys y maent wedi bod yn gysylltiedig â nhw. Disgwylir iddynt hefyd adolygu gwybodaeth a ddarperir gan eu cyflogwr. Yna, caiff y wybodaeth hon ei thrafod mewn arfarniadau rheolaidd, lle bydd meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn myfyrio ar eu hymarfer, gan gydnabod eu llwyddiannau a nodi meysydd i'w datblygu. Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i benderfynu a yw meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia yn parhau i gyrraedd y safonau rydym yn eu pennu dros amser. Enw'r broses hon yw ‘ailddilysu’.

Mae ymgymryd â gweithgarwch myfyrio a datblygiad proffesiynol drwy ailddilysu yn cefnogi diogelwch cleifion. Mae hefyd yn helpu i nodi gwelliannau y gellir eu rhoi ar waith i ofal cleifion yn y sefydliadau lle mae meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn gweithio.

5.2 Lle y bo'n briodol, bydd AGIC yn gweithio ar y cyd â'r CMC ac eraill yn ôl yr angen i roi sicrwydd am y systemau hyn fel rhan o'i gweithgareddau rheolaidd, ond gan osgoi gosod beichiau rheoliadol diangen ar sefydliadau gofal iechyd neu feddygon, cymdeithion meddygol neu gymdeithion anaesthesia unigol. Mae AGIC wedi llofnodi trefniadau llywodraethu clinigol effeithiol y CMC i gefnogi'r broses ailddilysu, sy'n amlinellu'r egwyddorion craidd sy'n sail i drefniadau llywodraethu clinigol effeithiol ac yn nodi'r cyfrifoldebau mewn perthynas â'r agweddau canlynol:

- Arweinyddiaeth, darpariaeth ac ansawdd trefniadau llywodraethu clinigol
- Ailddilysu
- Nodi pryderon am feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia ac ymateb i'r pryderon hynny

## 6. Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau

6.1 Bydd AGIC a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) yn hysbysu ei gilydd mewn da bryd ac yn rhoi gwybodaeth ddigonol i'w gilydd am unrhyw gyhoeddiadau arfaethedig i'r cyhoedd ar faterion a rennir, gan gynnwys cynigion a chyhoeddiadau drafft.

6.2 Bydd AGIC a'r CMC yn cydweithio, lle y bo'n briodol, i gynhyrchu gohebiaeth neu ddatganiadau ar y cyd sy'n tynnu sylw at weithgareddau a rennir. Byddwn yn sicrhau bod y trefniadau hyn yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

6.3 Bydd AGIC a'r CMC yn sicrhau bod unrhyw ddogfennau a rennir cyn iddynt gael eu cyhoeddi yn gyfrinachol ac yn sicrhau na chânt eu cyhoeddi cyn y dyddiad cyhoeddi arfaethedig.

## 7. Llywodraethu

7.1 Bydd cyswllt rheolaidd, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, yn ategu effeithiolrwydd y gydberthynas waith rhwng AGIC a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC).

7.2 Fel arfer caiff unrhyw anghytundeb rhwng AGIC a'r CMC ei ddatrys ar lefel gweithio. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid ei ddwyn at sylw rheolwyr

y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad A, a all ei uwchgyfeirio wedyn, fel y bo'n briodol, o fewn y ddau sefydliad er mwyn sicrhau datrysiad sy'n foddhaol i'r ddau sefydliad.

## 8. Cyfnod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'r broses o'i adolygu

8.1 Mae'r ddau sefydliad wedi nodi unigolyn sy'n gyfrifol am y gwaith o reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn Atodiad A. Byddant yn cydgysylltu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn parhau'n gyfredol, nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ac ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi mewn perthynas â'r gydberthynas waith rhwng y ddau sefydliad.

8.2 Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn dechrau ar 1 Ebrill a chaiff ei adolygu bob tair blynedd gan reolwyr y Memorandwm a nodir yn Atodiad A. Gellir hefyd ei adolygu'n amlach ar unrhyw adeg os bydd angen ei ddiwygio neu os na fydd yn berthnasol mwyach, ar gais un o'r sefydliadau.

## 9. Atodiad A – Manylion Cyswllt a Chymeradwyaeth

**Llofnodwyd**



Prif Weithredwr
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dyddiad: 12 Mawrth 2025

**Llofnodwyd**



Prif Weithredwr
Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Dyddiad: 11 Mawrth 2025

| **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** | **Y Cyngor Meddygol Cyffredinol** |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhyd-y-car<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ<br><br>Ffôn: 0300 062 8163<br><br>E-bost: agic@llyw.cymru | 350 Euston Rd<br>London<br>NW1 3AW<br><br>Ffôn: 0161 923 6602<br><br>E-bost: gmc@gmc-uk.org |

Mae'r unigolion cyswllt penodedig ar gyfer AGIC a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol fel a ganlyn:

| **Prif Weithredwyr** | |
|---|---|
| **Alun Jones**<br>*Prif Weithredwr*<br>*Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru*<br>**HIW.PIM@llyw.cymru** | **Charlie Massey**<br>*Prif Weithredwr*<br>*Y Cyngor Meddygol Cyffredinol*<br>privateoffice@gmc-uk.org |
| **Rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** | |
| **Richard Hayward**<br>*Pennaeth Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg*<br>*Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru* | **Andrew Richardson**<br>*Rheolwr Gwybodaeth a Dealltwriaeth Hwb Data, Ymchwil a Dealltwriaeth*<br>*Y Cyngor Meddygol Cyffredinol* |

| | |
|---|---|
| **HIW.PIM@llyw.cymru** | andrew.richardson@gmc-uk.org |

## 10. Atodiad B – Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rhannu Gwybodaeth

Rhaid i'r holl wybodaeth a rennir rhwng partneriaid gydymffurfio â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018.

Rhaid i'r partneriaid gydymffurfio â GDPR y DU os byddant yn bwriadu rhannu unrhyw wybodaeth bersonol.

Mae Adran Hawliau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i AGIC gwblhau Adnodd Sgrinio o'r Effaith ar Ddiogelu Data cyn rhannu unrhyw wybodaeth bersonol.

Yna, bydd Adran Hawliau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i AGIC a oes angen cytundeb rhannu gwybodaeth. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i AGIC gwblhau a chyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd Data a llunio cytundeb rhannu gwybodaeth i gefnogi'r broses o rannu unrhyw wybodaeth bersonol.

**Y Sail Gyfreithiol dros rannu gwybodaeth bersonol rhwng y Cyngor Meddygol Cyffredinol ac AGIC**

Mae AGIC a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) yn rheolyddion data sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain at ddibenion GDPR y DU a, lle y bo'n briodol, GDPR yr UE.

Lle bydd y CMC yn nodi y dylid rhannu data personol a ddelir ganddo ag AGIC er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau, mae sail gyfreithiol y CMC dros rannu data o dan GDPR y DU fel a ganlyn:

- Rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6(1)(c) o GDPR y DU (Paragraff 9 Atodlen 1 Deddf Meddygaeth 1983)
- Tasg gyhoeddus (Erthygl 6(1)(e) o GDPR y DU mewn perthynas â'i swyddogaethau statudol o dan Ddeddf Meddygaeth 1983 sy'n gysylltiedig ag Addasrwydd i Ymarfer).

Lle bo hyn yn cynnwys data categori arbennig, Erthygl 9(2)(g) o GDPR y DU yw sail gyfreithiol CMC o dan Erthygl 9 GDPR y DU - rhesymau sy'n ymwneud â budd cyhoeddus sylweddol â sail gyfreithiol glir. Amod 6 yw'r amod budd cyhoeddus sylweddol: at ddibenion statudol a llywodraethol o dan Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018.

Lle bydd AGIC yn nodi y dylid rhannu data personol a ddelir ganddi â'r CMC er mwyn cyflawni ei rhwymedigaethau, mae sail gyfreithiol AGIC dros rannu data fel a ganlyn:

- Erthygl 6(1)(c) o GDPR y DU: Caniatâd i rannu gwybodaeth pan fo angen er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol

- Erthygl 6(1)(e) o GDPR y DU: Caniatâd i rannu gwybodaeth er mwyn ymgymryd â thasg a gynhelir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol
- Atodlen 8 y Ddeddf Diogelu Data: Gellir prosesu data at ddibenion atal, canfod, erlyn neu ymchwilio i droseddau neu gyflwyno cosbau troseddol.
- Rhannu Data Categori Arbennig:
  Erthygl 9(2)(g) o GDPR y DU: Mae angen prosesu data am resymau sy'n ymwneud â budd cyhoeddus sylweddol; Atodiad 1, Rhan 2 o'r Ddeddf Diogelu Data – Gellir prosesu at ddibenion budd cyhoeddus sylweddol; Paragraff 6 pan fo'n angenrheidiol arfer swyddogaeth a roddir drwy ddeddfu rheol gyfreithiol;
- Paragraff 10 pan fo'n angenrheidiol at ddibenion cyflawni swyddogaethau amddiffynnol penodol sydd wedi'u dylunio i ddiogelu aelodau o'r cyhoedd rhag ymddygiad penodol nad yw o bosibl yn gyfystyr â gweithred anghyfreithlon, fel anonestrwydd, anghymhwysedd neu gamreoli.

## 11. Atodiad C - Rolau a chyfrifoldebau

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

AGIC yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, sefydlwyd protocolau i ddiogelu ei hymreolaeth weithredol.

Mae AGIC yn arolygu gwasanaethau'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau er mwyn nodi meysydd y mae angen eu gwella.

Ceir rhagor o fanylion am yr hyn y mae AGIC yn ei wneud yn www.agic.org.uk neu yma.

Mae strategaeth bresennol AGIC yn amlinellu ei nodau a'i hamcanion a gellir ei gweld yn strategaeth AGIC.

Mae prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC yn deillio o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (legislation.gov.uk)
- Deddf Safonau Gofal 2000 (legislation.gov.uk)
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 (legislation.gov.uk)
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (legislation.gov.uk)
- Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008 (legislation.gov.uk)

Rhaid ystyried y canlynol ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd y GIG:

- Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023).
- Dyletswydd Gonestrwydd y GIG (2023)[1].
- Datganiadau Ansawdd (lle y maent ar gael).
- Lle caiff ymbelydredd ïoneiddio ei ddefnyddio, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017(Legislation.gov.uk)[2].

Rhaid ystyried y canlynol ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd annibynnol:

[1] Cyflwynwyd y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal a Dyletswydd Gonestrwydd y GIG o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Legislation.gov.uk).

[2] Diwygiwyd gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Diwygio) 2018 (legislation.gov.uk) a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Diwygio) 2024 Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Diwygio) 2024 (legislation.gov.uk)

- Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru (2011)[3].
- Rheoliadau perthnasol fel Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011(Legislation.gov.uk) a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 (Legislation.gov.uk).
- Lle caiff ymbelydredd ïoneiddio ei ddefnyddio, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017[4](Legislation.gov.uk).

Dylid ystyried y canlynol ar gyfer gwasanaethau perthnasol lle y bo'n gymwys:

- Canllawiau a safonau perthnasol a luniwyd gan reoleiddwyr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a sefydliadau cydnabyddedig eraill

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Caiff cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol eu nodi'n bennaf yn Neddf Meddygaeth 1983 (y Ddeddf Feddygaeth), Gorchymyn Cymdeithion Anaesthesia a Chymdeithion Meddygol 2024 a 'gorchymyn nesaf y Cyngor Meddygol Cyffredinol'[5].

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn y DU.

Rydym yn gweithio gyda'r Cyngor a rhanddeiliaid eraill i wneud y canlynol:

- pennu'r safonau o ran gofal cleifion ac ymddygiad proffesiynol y mae angen i feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia eu cyrraedd.
- gwneud yn siŵr bod meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn cael yr addysg sydd ei hangen arnynt i ddarparu gofal cleifion da a diogel.
- gwirio pwy sy'n ddilys i weithio fel meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia yn y DU a gweithio gyda nhw a'u cyflogwyr i gadarnhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf ac yn cyrraedd y safonau proffesiynol rydym yn eu pennu.
- rhoi arweiniad a chyngor er mwyn helpu meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt.

---

[3] safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gwasanaethau-gofal-iechyd-annibynnol-yng-nghymru-2011-rhif-16.pdf (llyw.cymru).

[4] Fel y'u diwygiwyd – gweler y troednodyn blaenorol

[5] Nid yw'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cadarnhau enw'r gorchymyn sy'n gysylltiedig â'r tri phroffesiwn (meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia) o dan reoliadau'r CMC hyd yma. Caiff hyn ei ddiweddaru fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf a gaiff ei drefnu o'r cytundeb, os bydd enw'r gorchymyn wedi'i gadarnhau erbyn y dyddiad hwnnw.

- ymchwilio i bryderon lle gallai diogelwch cleifion, neu hyder y cyhoedd mewn meddygon, cymdeithion meddygol neu gymdeithion anaesthesia, fod mewn perygl, a chymryd camau os bydd angen.